Rhestr Gyfeirio Meini Prawf Croeso i Gerddwyr (Meysydd Carafanau)

Croeso Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfeirnod Croeso Cymru: _____

Enw Cyswllt: _____

Sefydliad: _____

Dyddiad yr Ymweliad: _____

_____

Enw'r Asesydd Ansawdd: _____

_____

Sêr: _____

_____

Dynodwr: _____

Cod Post: _____

_____

Cyfleusterau a Gwasanaethau		
	Oes	Nac Oes
Cyfleuster diogel ar wahân gyda ffynhonnell o wres i sychu dillad awyr agored ac esgidiau.	☐	☐
Mynediad i gyfleusterau gyda chyflenwad dŵr ar gyfer glanhau esgidiau trwm a dillad awyr agored. Argymhellir darparu crafwyr esgidiau. Dylai'r cyflenwad dŵr gael ei labeli'n glir a dylid tynnu sylw ato, a dylai fod ar wahân i'r mannau lle darperir dŵr yfed.	☐	☐
Pecyn cymorth cyntaf sy'n briodol i faint y busnes, gallai gael ei roi mewn man canolog, a chyfeiriad ato ym mhob carafán sydd ar osod ac yn y dderbynfa.	☐	☐
Cyfleusterau golchi dillad, gwasanaeth golchi neu fanylion y golchdy agosaf.	☐	☐

Trefniadau Bwyd		
	Oes	Nac Oes
Yn achos gwersyllwyr, mae diod boeth yn cael ei chynnig i bawb wrth iddynt gyrraedd (hy cyn neu wrth iddynt godi eu pebyll).	☐	☐
Manylion a chyfeiriadau ar gyfer y siop fwyd agosaf, os nad oes siop i gael ar y safle. Gallai'r manylion fod mewn man canolog, hygyrch, a dylent gael eu gadael yn y carafannau sydd ar osod.	☐	☐
Cyfleuster ar gael, ar gais, i westeion sy'n dod heb gar rag-archebu eitemau bwyd sylfaenol cyn iddynt gyrraedd.	☐	☐

Rhestr Gyfeirio Meini Prawf Croeso i Gerddwyr (Meysydd Carafanau)

Croeso Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darparu Gwybodaeth		
	Oes	Nac Oes
Manylion y meddyg, deintydd, ysbyty, fferyllfa dros nos a milfeddyg agosaf (os derbynnir anifeiliaid anwes). Dylai'r manylion hyn fod yn amlwg ac ar gael 24 awr.	☐	☐
Mapiau a llyfrau i gyfeirio atynt er mwyn cerdded yn yr ardal/manylion llwybrau a sefydliadau cerdded lleol a rhanbarthol .	☐	☐
Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus leol neu fanylion cyswllt i wneud ymholiadau.	☐	☐
Manylion hefyd am gwmnïau cludo bagiau a chwmnïau tacsi sy'n gweithredu'n lleol.	☐	☐
Gwybodaeth am dywydd yr ardal yn ogystal â/neu rifau ffôn y gallai gwesteion eu ffonio, pe bai angen, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, yn cael eu harddangos mewn man amlwg.	☐	☐
Gwybodaeth am atyniadau a digwyddiadau lleol a/neu rifau ffôn canolfannau croeso, a chyfarwyddiadau sut i'w cyrraedd.	☐	☐
Gwybodaeth am leoliad ac oriau agor y siopau agosaf, gan gynnwys cyfarwyddiadau sut i'w cyrraedd.	☐	☐
Manylion y banc/peiriant tynnu arian parod, y ffôn cyhoeddus, swyddfa'r post a siopau offer awyr agored agosaf .	☐	☐
Manylion gwasanaethau achub lleol yn cael eu harddangos, gan gynnwys nodi rhif ffôn 999 (112 o ffôn symudol). Dylid darparu eglurhad i ymwelwyr o dramor bod angen iddynt ofyn bob amser am yr heddlu yn y lle cyntaf. Dylid cynnwys hefyd rifau timau achub o'r mynydd a gwylwyr y glannau (os yn berthnasol).	☐	☐
Manylion y Cod Cefn Gwlad.	☐	☐
Manylion bwytai a thafarndai lleol sy'n darparu bwyd .	☐	☐
Os oes modd cadw lle i grwpiau, mae gwybodaeth ar gael i grwpiau am gyfleusterau storio, cyfleusterau/opsiynau bwyta, a darperir unrhyw wybodaeth sydd ei hangen cyn iddynt gyrraedd .	☐	☐

Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau drwy e-bost i **quality.tourism@wales.gsi.gov.uk** neu trwy'r post at:

Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3YR

WG15906 / G/MH/4401 / 0612 / © Hawlfraint y Goron 2012